

Eitem: 10

Teitl: Rheolau Sefydlog wedi'u hadolygu a'u diweddaru

Gweithredu / Action required	I'w gymeradwyo gan y Bwrdd.
Amseru / Timing	24 ^{ain} Gorffennaf 2024
Argymhelliad / Recommendation	Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog sydd wedi'u hadolygu a'u diweddaru ar gyfer Llais.
Risg / Risk	Os na fydd Llais yn adolygu ei Reolau Sefydlog yn rheolaidd fel rhan o'i drefniadau llywodraethu ehangach, bydd mewn perygl o weithredu heb y sefyllfa ddiweddaraf o ran ei rolau a'i gyfrifoldebau a'i ffyrdd cytunedig o weithio. Bydd hyn yn peri risg i Llais weithredu neu wneud penderfyniadau nad ydynt yn bodloni ei ofynion statudol gofynnol.
Cyllid / Finance	Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i gymeradwyo'r adroddiad hwn a'r Rheolau Sefydlog wedi'u diweddaru.
Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective	Mae'r gwaith hwn yn ymwneud yn arbennig ag amcan 5 – sef tyfu a gwella fel sefydliad a bod yn sefydliad y gellir ymddiried ynddo sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb. Bydd trefniadau llywodraethu da yn alluogwyr pwysig ar gyfer gweithrediad llwyddiannus a chyflawniad pob agwedd o waith Llais ac felly, cyflawni pob amcan allweddol.
Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion	Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol i ddulliau a gofynion ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant.
Cyfathrebu / Communications	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:

	<p>Mewnol: ein pobl <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Allanol: enw da ein sefydliad <input checked="" type="checkbox"/></p>
Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Prif Weithredwr
Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions	Cymeradwywyd y Rheolau Sefydlog yn wreiddiol gan Fwrdd Llais fel rhan o gyfnod sefydlu'r mudiad. Mae'r Rheolau Sefydlog diwygiedig wedi'u trafod a'u cefnogi eisoes gan Tîm Arwain yn ei gyfarfod ar ^s Mehefin 2024 a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 19 ^{eg} Mehefin 2024.
Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting	Richard Bevan, Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd
Dyddiad / Date	11 ^{eg} Gorffennaf 2024
Cefndir / Background	
<p>Mae Llais yn ei gwneud yn ofynnol i fod â set o reolau sefydlog yn eu lle fel rhan o'i fframwaith llywodraethu cyffredinol, sef rheolau a threfniadau ffurfiol sy'n llywio gweithrediad y Bwrdd, ei bwyllgorau a phenderfyniadau'r sefydliad.</p> <p>Datblygwyd Rheolau Sefydlog ar gyfer y sefydliad gyda chyingor gan Lywodraeth Cymru. Cymeradwywyd y rheolau sefydlog gwreiddiol ym mis Hydref 2022 ac maent wedi'u diweddarau sawl gwaith gan gynnwys cymeradwyaeth gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2023.</p> <p>Comisiynodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr Eversheds Sutherland i gynnal adolygiad llywodraethu annibynnol yn chwarter cyntaf 2024. Derbyniwyd allbynnau'r adolygiad hwn ddiwedd mis Mawrth 2024.</p> <p>Gofynnwyd i Richard Bevan, Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd gynnal adolygiad llywodraethu. Elfen allweddol o'r adolygiad fu defnyddio allbynnau'r adolygiad annibynnol ac arfer da presennol i ddiweddarau, lle bo angen, fframwaith llywodraethu'r sefydliad.</p> <p>Elfen bwysig o'r gwaith adolygu hwnnw fu diweddarau'r rheolau sefydlog ar gyfer Llais, a gyflawnwyd ddiwedd Ebrill a dechrau Mai. Mae set o reolau sefydlog wedi'u diweddarau wedi'u cynnig a'u cefnogi gan Tîm Arwain a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.</p>	

Amlinellir y prif feysydd newid ac ychwanegiadau isod.

- Cynhwysiant ac eglurhad ar rôl Ysgrifennydd y Bwrdd
- Eglurhad ar gymhwysedd Aelodau'r Bwrdd i bleidleisio, os oes angen
- Diweddarau'r darpariaethau ar gyfer cworwm a pharhau i gyfarfod pan nad oes cworwm.
- Ychwanegu darpariaeth Camau Gweithredu'r Cadeirydd ar faterion brys
- Ychwanegu darpariaethau ar gyfer defnyddio sêl sefydliadol, cadw'r sêl, selio dogfennau a llofnodi dogfennau
- Bydd dolen newydd yn cael ei hychwanegu at gylch gorchwyl newydd ar gyfer pwyllgorau, pan gytunir arno
- Darpariaethau wedi'u diweddarau ar gyfer datrys anghydfodau rhwng aelodau'r Bwrdd a rôl Ysgrifennydd y Bwrdd
- Gwybodaeth wedi'i diweddarau ynghylch gwerthusiadau aelodau
- Hyfforddiant, datblygiad a chynefino

Manylion / Detail

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r newidiadau yn fanwl fel yr amlinellwyd uchod a chymeradwyo'r Rheolau Sefydlog wedi'u hadolygu a'u diweddarau.

Pan gânt eu cymeradwyo bydd y Rheolau Sefydlog newydd yn rhan o fframwaith llywodraethu Llais ac yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau gwe Llais, fel rhan o ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored ac yn dryloyw.

Bob blwyddyn bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn cynnal adolygiad o gydymffurfiaeth â rheolau sefydlog ac yn adrodd ar hyn i'r Bwrdd trwy'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Bydd unrhyw doriadau a nodir ac a adroddir neu ddiffyg cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog yn cael eu trafod gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd a chymerir camau adferol ac adroddir arnynt.

Mae'r rheolau sefydlog wedi'u hadolygu a'u diweddarau ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.